UK Research and Innovation

# Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad UKRI

Ymchwil ac arloesi
**gan bawb, i bawb**



# Cynnwys


Cyflwyniad ........ 3

Manteision ymchwil ac arloesi
o amrywiaeth a chynhwysiad ........ 4

Sut wnaethom ni ddatblygu'r strategaeth hon ........ 5

Ein hamcanion strategol ........ 6

1. Meithrin system ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf,
'Gan bawb, i bawb' ........ 7

2. Cynnwys a chefnogi amrywiaeth o bobl a syniadau
drwy ein cyllid a'n partneriaethau ........ 8

3. Creu diwylliant trefniadol mwy cynhwysol a theg,
lle gall pawb gyfrannu a chymryd rhan, a theimlo
eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu ........ 9

4. Blaenu a thyfu gwybodaeth a'r gallu i
gefnogi system ymchwil ac arloesi ffyniannus
trwy fod yn sefydliad creadigol, sail-tystiolaeth
a sail-gwybodaeth ........ 10

Ein Cynlluniau Gweithredu ........ 11

Llywodraethu ac atebolrwydd ........ 12

Cydnabyddiaethau ........ 13

Atodiad ........ 13






# Cyflwyniad

**Mae ymchwil ac arloesi yn creu a blaenu gwybodaeth ac yn datblygu technolegau sydd â'r potensial i drawsnewid ein cymdeithas. Maent yn mynd i'r afael â heriau cenedlaethol a byd-eang ac yn cyfoethogi bywydau, gan sicrhau twf economaidd, a manteision cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.**

UKRI yw'r buddsoddwr cyhoeddus mwyaf mewn ymchwil ac arloesi yn y DU. Mae ein strategaeth pum-mlynedd[1] yn nodi ein huchelgais i "Drawsnewid Yfory Gyda'n Gilydd", drwy gefnogi system ymchwil ac arloesi ffyniannus, creadigol ac ystwyth sy'n creu cyfleoedd a manteision i bawb.

Mae pobl wrth wraidd y system ymchwil ac arloesi hon. Mae gan y DU weithlu ymchwil ac arloesi hynod dalentog, creadigol, a medrus. Mae pobl mewn sawl rôl wahanol – gan gynnwys ymchwilwyr, arloeswyr, entrepreneuriaid, technegwyr, rheolwyr prosiect, gweinyddwyr – yn gweithio gyda'i gilydd i greu gwybodaeth, atebion, technolegau, cynhyrchion a gwasanaethau newydd, ac i sicrhau bod eu buddion yn cael eu gwireddu.

Ond rydyn ni'n gwybod bod talent a photensial heb eu cyffwrdd ledled y DU ac ar draws y byd. Mae yna lawer o bobl nad ydynt yn gallu cyfrannu'n llawn at yr ymchwil a'r arloesi rydyn ni'n ei gefnogi. Mae hyn yn cyfyngu ar greadigrwydd, syniadau, darganfyddiadau ac arloesi. Er mwyn hybu cynhyrchiant a thwf economaidd, cwrdd ag anghenion y dyfodol ar gyfer y gweithlu ymchwil ac arloesi[2] a sicrhau safle'r DU fel arweinydd byd-eang ym maes gwyddoniaeth, technoleg ac arloesi, mae angen i'r DU ddenu, datblygu a chadw pwll amrywiol o bobl dalentog.

Dyma pam mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad yn rhan annatod o weledigaeth a chenhadaeth UKRI. Bydd cynnwys a gwerthfawrogi ystod ehangach o bobl a thalent yn ein helpu i gyflawni potensial rhyfeddol ymchwil ac arloesi. Bydd creu diwylliannau croesawgar, cadarnhaol a chynhwysol lle gall pobl a'u syniadau ffynnu, yn gwneud y mwyaf o botensial y dalent hon, fel y gall pawb elwa ar fuddsoddiadau'r DU mewn ymchwil ac arloesi.

Mae ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad yn nodi sut y byddwn yn defnyddio ein rolau fel arweinydd, cyllidwr a phartner, a chyflogwr i feithrin system ymchwil ac arloesi mwy amrywiol a chynhwysol; system lle mae pawb yn teimlo'n gynwysedig, yn gallu cymryd rhan mewn, cyfrannu at, ac elwa o'n buddsoddiadau mewn ymchwil ac arloesi; yn fyr, system ymchwil ac arloesi gan bawb, i bawb.

**"Creu diwylliannau croesawgar, cadarnhaol a chynhwysol lle gall pobl a'u syniadau ffynnu"**


# Ymchwil ac arloesi yn elwa o amrywiaeth a chynhwysiad

**Mae creadigrwydd a datrys problemau yn greiddiol i ymchwil ac arloesi. Ac mae'r dystiolaeth yn glir – mae amrywiaeth a chynhwysiad yn cael effeithiau cadarnhaol ar greadigrwydd, arloesi a pherfformiad[3].**

Mae cynnwys a gwerthfawrogi amrywiaeth o ddulliau, sgiliau a safbwyntiau yn cefnogi datrys problemau cydweithredol a chreadigol, gan feithrin syniadau ac arloesi newydd. Bydd effaith a budd ymchwil ac arloesi yn fwy perthnasol a defnyddiol i bawb pan fydd pobl sydd ag arbenigedd, profiadau, dulliau a ffyrdd gwahanol o feddwl yn cydweithio.

Er mwyn gwireddu potensial ymchwil ac arloesi, ein huchelgais yw cael system:

- y gall pawb gymryd rhan ynddi, gyfrannu ati, ac elwa o'n buddsoddiadau mewn ymchwil ac arloesi
- y mae pobl a syniadau'n ffynnu ynddi, yn cael eu cefnogi ynddi, a'u hannog ynddi
- y mae gwahanol bobl, syniadau, ffyrdd o feddwl, sgiliau a safbwyntiau yn cael eu gwerthfawrogi ynddi
- y mae pawb yn teimlo'n gynwysedig, yn cael ei glywed, ac yn cael ei barchu ynddi.



**"Bydd effaith a budd ymchwil ac arloesi yn fwy perthnasol a defnyddiol i bawb pan fydd pobl sydd ag arbenigedd, profiadau, dulliau a ffyrdd gwahanol o feddwl yn cydweithio."**

# Sut wnaethom ni ddatblygu'r strategaeth hon

**Mae'r sylfeini ar gyfer y strategaeth hon wedi'u hadeiladu ar ymgysylltu traws-sector hirdymor a helaeth gyda llawer o bobl a sefydliadau. Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad wedi bod yn flaenoriaeth sefydliadol ers ffurfio UKRI, gan adeiladu ar waith cynharach ein cynghorau.**

Gyda'r strategaeth hon, rydym wedi dwyn ynghyd ein dulliau a'n dysgu a herio ein hunain fel rhan o'n nod i fod yn sefydliad effeithlon, effeithiol a byd-eang. Mae ein strategaeth yn elwa o wybodaeth, ymchwil, data, ac arbenigedd o bob rhan o'r sector ymchwil ac arloesi. Mae'n adeiladu ar y gwersi rydym wedi'u dysgu, ac yn parhau i ddysgu, amdanom ni ein hunain, fel sefydliad, a'r hyn y gallwn ei wneud mewn partneriaeth ag eraill.

Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r rhai sydd wedi ein cynghori, wedi cyfrannu at, ein cefnogi a'n herio i weithio mewn gwahanol ffyrdd, ac sydd wedi ein harwain at y pwynt hwn. Sail ein gwybodaeth yw sgyrsiau gydag:

- unigolion, gan gynnwys ein staff
- ein rhwydweithiau staff
- mudiadau ar lawr gwlad
- grwpiau eiriolaeth
- sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol.

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, rydym wedi:

- defnyddio'r ystod eang o adborth a safbwyntiau gan ein cymunedau ar ein strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad ddrafft i fireinio'r strategaeth hon a datblygu ein cynlluniau gweithredu
- dyfnhau ein dealltwriaeth a llenwi bylchau yn ein gwybodaeth drwy archwilio ein data (data amrywiaeth UKRI, adroddiad bwlch cyflog rhwng y rhywiau UKRI) ac adolygiadau tystiolaeth
- ystyried yr argymhellion a heriau mewn llythyrau agored, arolygon, a gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid

O'r ymgynghoriad ar ein strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad drafft, clywsom, er bod llawer o bobl a sefydliadau yn cefnogi ein huchelgeisiau, bod angen i ni fod yn gliriach ynghylch y camau y byddwn yn eu cymryd. Mae ein strategaeth yn nodi ein huchelgais, sut y byddwn yn ei chyflawni ac yn darparu fframwaith ar gyfer y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd. Mae ein cyfres o gynlluniau gweithredu[4], sy'n ddogfennau byw, yn disgrifio'r hyn y byddwn yn ei wneud a'r canlyniadau yr ydym yn disgwyl eu gweld.



**"Mae ein strategaeth yn elwa o wybodaeth, ymchwil, data, ac arbenigedd o bob rhan o'r sector ymchwil ac arloesi"**

# Ein hamcanion strategol

Mae pedwar amcan yn darparu fframwaith ar gyfer y camau y byddwn yn eu cymryd i weithredu'r strategaeth hon. Mae'r amcanion hyn yn canolbwyntio ar ein rolau fel arweinydd, cyllidwr a phartner, ac fel cyflogwr.



# 1.

## Meithrin ymchwil a system arloesi o'r radd flaenaf, 'gan bawb, i bawb'

**Byddwn yn cataleiddio ac yn creu'r amodau a'r cymhellion ar gyfer system ymchwil ac arloesi ffyniannus. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth gennym ni ac eraill i gefnogi ein nod o fod yn sefydliad o'r radd flaenaf sy'n arwain drwy esiampl.**

Rydym yn ymrwymo i'r canlynol:

- **mynd i'r afael â materion systemig** drwy ddatblygu dulliau arloesol a gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod cymaint â phosib o botensial pobl a syniadau yn y system ymchwil ac arloesi
- datblygu **egwyddorion a chymhellion** i gefnogi'r gwaith o ddylunio a darparu ymchwil ac arloesi er mwyn creu cyfleoedd a buddion i bawb
- **cydnabod, gwerthfawrogi a gwobrwyo** pawb yn y system a'u rolau a'u cyfraniadau amrywiol at ymchwil ac arloesi o ansawdd uchel, gan sicrhau budd o ystod lawn talent a chreadigrwydd y gweithlu ymchwil ac arloesi.

# 2.

## Cynnwys a chefnogi amrywiaeth o bobl a syniadau drwy ein cyllid a'n partneriaethau

**Byddwn yn defnyddio ein cyllid a'n strategaethau, cynlluniau, polisïau, a phrosesau i gefnogi amrywiaeth pobl, talent a syniadau sydd eu hangen ar gyfer ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf. Byddwn yn cynnwys ystod ehangach o bobl a sefydliadau wrth ddylunio a chyflwyno ymchwil ac arloesi, i helpu i ymgorffori ymchwil ac arloesi yn ein cymdeithas a'n heconomi er lles pawb.**

Rydym yn ymrwymo i'r canlynol:

- nodi lle mae angen i ni herio ein hunain, dysgu gan eraill, a gweithredu i wella ein **prosesau gwneud penderfyniadau** i sicrhau'r buddion mwyaf posibl o fuddsoddiadau mewn ymchwil ac arloesi o ansawdd uchel i bawb
- **arloesi, treialu, a buddsoddi** mewn ymyriadau i gefnogi portffolio amrywiol o syniadau a phobl
- datblygu a buddsoddi mewn mentrau i **gynyddu amrywiaeth y bobl sy'n gallu gwneud cais am, cymryd rhan mewn ac elwa o'n buddsoddiadau mewn ymchwil ac arloesi**
- **cynnwys a gwerthfawrogi amrywiaeth o bobl, profiadau a safbwyntiau** yn ein strwythurau llywodraethu ac atebolrwydd
- profi a gwreiddio dulliau o ymdrin **â deialog ac ymgysylltu cynhwysol** i wella ymchwil ac arloesi trwy gynnwys ystod ehangach o bobl a safbwyntiau
- gweithio mewn **partneriaeth** ar draws y sector fel rhan o ymdrech a rennir i feithrin system ymchwil ac arloesi fwy cynhyrchiol, gan ddefnyddio ein hadnoddau cyfunol yn greadigol, yn effeithlon ac effeithiol.


# 3.

## Creu diwylliant trefniadol mwy cynhwysol a theg, lle gall pawb gyfrannu a chymryd rhan, a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu

**Bydd pawb sy'n gweithio ar gyfer a gydag UKRI yn teimlo'n gynwysedig, yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn gallu cyfrannu a chymryd rhan. Mae ein huwch arweinwyr wedi ymrwymo i ac yn atebol am ein cynnydd.**

Rydym yn ymrwymo i'r canlynol:

- ein uwch arweinwyr yn hyrwyddo cynhwysiad, a modelu camau ac ymddygiadau cynhwysol
- dod yn sefydliad mwy cynhwysol lle gall pobl ffynnu ac sy'n recriwtio, cefnogi a chadw gweithlu mwy amrywiol
- creu amgylcheddau cynhwysol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn cael eu cefnogi i gyflawni eu llawn botensial, gan gefnogi ein nod i fod yn sefydliad o'r radd flaenaf.



# 4.

## Blaenu a thyfu gwybodaeth a'r gallu i gefnogi system ymchwil ac arloesi ffyniannus trwy fod yn sefydliad creadigol, sail-tystiolaeth a sail-gwybodaeth

**Byddwn yn arbrofi ac yn monitro, i ddysgu am 'beth sy'n gweithio' ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiad, i gefnogi system ymchwil ac arloesi creadigol a gwych. Byddwn yn datblygu dulliau i werthuso effaith y dewisiadau rydyn ni'n eu gwneud a fydd yn llywio ein dewisiadau yn y dyfodol. Byddwn yn rhannu ein data a'n mewnwelediadau ac yn gweithio mewn partneriaeth i wella gwybodaeth a dealltwriaeth y sector, gan gyfrannu at well effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar draws y sector.**

Rydym yn ymrwymo i'r canlynol:

- Adeiladu ein **galluoedd casglu data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad a'n galluoedd dadansoddol** a defnyddio ein data i gefnogi gwneud penderfyniadau cynhwysol
- **Gyrru ac arwain dulliau cynaliadwy ac effeithlon o gasglu, dadansoddi a gweithredu ar ddata amrywiaeth,** drwy weithio gyda'r sector i greu prosesau effeithiol sy'n lleihau baich a gwella gallu'r sector i dargedu ymyriadau
- Cyfrannu at wybodaeth a dealltwriaeth y sector **am 'beth sy'n gweithio' drwy fesur, gwerthuso a defnyddio data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad i wella ymchwil ac arloesi.**


# Ein Cynlluniau Gweithredu

**Mae ein strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer cyfres o gynlluniau gweithredu. Mae'r cynlluniau gweithredu hyn yn ymateb i'n rolau gwahanol yn y system ymchwil ac arloesi – fel arweinydd, buddsoddwr a phartner, ac fel cyflogwr.**

Drwy wrando ar a gweithio gyda'n cymunedau a'n partneriaid ac adeiladu'r sylfaen dystiolaeth, byddwn yn esblygu'r cynlluniau gweithredu hyn ac yn mireinio blaenoriaethau. Byddwn yn gyrru ac yn cataleiddio newid systemig, gan weithio mewn partneriaeth i ddatblygu a rhannu arfer da sy'n gwella perfformiad y system ymchwil ac arloesi.

Byddwn yn arbrofi ac yn datblygu dulliau newydd, treialu a gweithredu ymyriadau y byddwn yn eu monitro, eu gwerthuso, ac yn dysgu ohonynt. Bydd y dull gweithredu hwn yn ein galluogi i ymateb i anghenion sy'n newid, cefnogi cylch o ddysgu a gwella, a thyfu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer 'beth sy'n gweithio'.

Byddwn yn monitro ein cynnydd yn erbyn y strategaeth fel rhan o'n busnes bob dydd, gyda chefnogaeth ein fframwaith rheoli perfformiad sefydliadol.



**"Drwy wrando ar ein cymunedau a'n partneriaid a gweithio gyda nhw ac adeiladu'r sail dystiolaeth, byddwn yn esblygu'r cynlluniau gweithredu hyn a'r blaenoriaethau mireinio."**

# Llywodraethu ac atebolrwydd

**Mae gan bawb sy'n gweithio i UKRI rôl i'w chwarae wrth feithrin system ymchwil ac arloesi gan bawb, i bawb. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb cyffredin am greu a meithrin amgylcheddau gwaith lle mae safbwyntiau, sgiliau, a phrofiadau gwahanol yn cael eu gwerthfawrogi.**


Mae'r strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad yn rhan o bortffolio Pobl, Diwylliant a Thalent UKRI. Bydd y Bwrdd Pobl, Diwylliant a Newid Talent yn goruchwylio cynnydd tuag at ein huchelgais ar gyfer system ymchwil ac arloesi fwy amrywiol, cynaliadwy a chynhyrchiol a ategir gan ddiwylliant effeithiol a chynhwysol. Bydd y Bwrdd Newid yn ein cefnogi ni i fod yn effeithlon ac effeithiol wrth gyflawni'r strategaeth a chysylltu timau ar draws UKRI. Mae'r Bwrdd Newid yn adrodd i Bwyllgor Gwaith UKRI.

Mae'r strategaeth hon yn fframwaith sy'n angori ac yn cefnogi cynlluniau gweithredu ar draws UKRI. Mae gan bob un o'n cynlluniau gweithredu berchennog, sy'n atebol am fonitro ac asesu cynnydd. Bydd monitro'r cynlluniau gweithredu hyn yn ein galluogi i reoli a gwerthuso perfformiad ac effaith ein strategaeth a llywio ein gweithgareddau a'n cynlluniau at y dyfodol.

Wrth weithredu'r strategaeth hon, mae UKRI yn atebol am y dewisiadau a wnawn a'r gweithredoedd rydyn ni'n eu cymryd.

Mae rôl i bob rhan o'r system wrth wneud y DU yn arweinydd o'r radd flaenaf ym maes ymchwil ac arloesi a chreu system y mae pobl a syniadau yn ffynnu ynddi. Rydym yn gwahodd pawb i gyfrannu a chwarae eu rhan drwy weithredu ar y cyd i wireddu system ymchwil ac arloesi gynhwysol.

Bydd ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad yn cael ei hadolygu a'i hadnewyddu'n rheolaidd. Byddwn yn adrodd ac yn rhannu ein cynnydd yn rheolaidd, ac yn darparu diweddariad yn 2024.



**"Mae rôl i bob rhan o'r system wrth wneud y DU yn arweinydd o'r radd flaenaf ym maes ymchwil ac arloesi a chreu system y mae pobl a syniadau yn ffynnu ynddi."**

# Cydnabyddiaethau

Wrth ddatblygu ein strategaeth EDI gyntaf rydym wedi manteisio ar arbenigedd ar draws UKRI a rhyngweithio â llawer o bobl, sefydliadau a phartneriaid ar draws y sector ymchwil ac arloesi.

Rydym yn gwerthfawrogi ac yn gwerthfawrogi mewnwelediad, arbenigedd ac ymrwymiad llawer o bobl, sydd wedi llunio datblygiad ein strategaeth.

## Atodiad

1. Strategaeth UKRI 2022-2027
2. Strategaeth Pobl a Diwylliant Ymchwil a Datblygu (publishing.service.gov.uk)
3. Evidence for the positive impact that diversity and inclusion have on creativity, innovation, and performance includes:

Bouncken, R. B. (2004). Cultural diversity in entrepreneurial teams: Findings of new ventures in Germany. Creativity and Innovation Management, 13(4), 240-253

Díaz-García, C., González-Moreno, A. & Sáez-Martínez, F. J. (2013). Gender diversity within R&D teams: Its impact on radicalness of innovation. Innovation: Management, Policy & Practice, 15(2), 149-160

Nathan, M. (2014). Same difference? Minority ethnic inventors, diversity and innovation in the UK. Journal of Economic Geography, 15 (1). tud. 129-168

Nielsen MW, Alegria S, Börjeson L, Etzkowitz H, Falk-Krzesinski HJ, Joshi A, Leahey E, Smith-Doerr L, Woolley AW, Schiebinger L. (2017). Proc Natl Acad Sci U S A. 114(8):1740-1742. doi: 10.1073/pnas.1700616114

McKinsey Group (2018). Delivering through Diversity, January 2018.

Page, S. E. (2008). The difference: how the power of diversity creates better groups, firms, schools, and societies. Princeton, N.J., Princeton University Press.

4. Mae ein cynllun gweithlu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad yn nodi sut y byddwn yn adeiladu diwylliant mwy cynhwysol yn UKRI, i gynnig cyfle i bawb, ac i ddatblygu amrywiaeth pobl a meddwl bod angen i ni fod yn sefydliad o'r radd flaenaf. Y bwriad hefyd yw sicrhau bod UKRI yn denu ac yn cadw'r bobl orau i gyflawni ein rôl allweddol mewn system ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf.

   Mae ein cynlluniau gweithredu dan arweiniad y cyngor yn nodi'r camau teilwredig y byddwn yn eu cymryd ar draws y disgyblaethau, gan weithio mewn partneriaeth â'n cymunedau, partneriaid a rhanddeiliaid.

## Hygyrchedd

I wneud cais am gopïau o'r adroddiad hwn mewn print bras neu mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad yn UKRI:

Ffôn: 01793 444000

Ar gyfer fersiwn sain o'r ddogfen hon, anfonwch e-bost at equality@ukri.org

Post: UK Research and Innovation, Polaris House, Swindon SN2 1FL

https://www.ukri.org/publications/ukris-equality-diversity-and-inclusion-strategy/ukris-equality-diversity-and-inclusion-strategy-research-and-innovation-by-everyone-for-everyone/